
Cyngor Sir Ddinbych
Cynllun Datblygu Lleol 2006 - 2021

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2017

**Cyhoeddwyd 31 Hydref 2017**



**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cynllunio Strategol a Thai**
**Blwch Post 62**
**Rhuthun**
**LL15 9AZ**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cafodd yr adroddiad hwn ei awdurdodi gan Graham Boase (Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd yng Nghyngor Sir Ddinbych).



Dinbych, 16.10.2017


# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Crynodeb | 5 |
| 2. | Cyflwyniad | 5 |
| 3. | Adroddiad Adolygu CDLl Drafft (Awst 2017) | 6 |
| 4. | Canfyddiadau allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol | 6 |
| 5. | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru | 7 |
| 6. | Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol | 7 |
| 7. | Strategaeth CDLl | 9 |
| 8. | Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyflenwad tir tai 5 mlynedd | 11 |
| 9. | Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr | 11 |
| 10. | Tir cyflogaeth | 12 |
| 11. | Adwerthu | 12 |
| 12. | Gwastraff a Mwynau | 13 |
| 13 | Polisi Lleol – Crynodeb Monitro | 14 |
| 14. | Fframwaith Gwerthuso Cynaladwyedd – Crynodeb Monitro | 16 |
| 15. | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 17 |

Atodiad 1 Polisi Lleol – Tabl Monitro

Atodiad 2 Amcanion SA – Tabl Monitro

Ffigur 1: Sir Ddinbych, Gogledd Cymru



## 1. Crynodeb

1.1 Dyma'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych, ac mae'n ychwanegu at ddau adroddiad monitro blynyddol mewn perthynas â pherfformiad polisi lleol a chasglu tystiolaeth hanfodol ar gyfer cynhyrchu'r CDLl newydd.

1.2 I gyd-fynd â chynhyrchu'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r Adroddiad Adolygu CDLl Drafft ac yn ymgynghori ar y cynnig i ddechrau adolygu'r CDLl presennol ar ddechrau 2018. Mae'r ddwy ddogfen yn tynnu ar berfformiad polisi lleol ac, felly, yn ategu ei gilydd.

1.3 Mae wedi dod yn amlwg yn ystod y pedair blynedd diwethaf ers mabwysiadu'r CDLl nad yw tri prif faes y polisi lleol yn perfformio yn ôl y disgwyl ac yn debygol o gael eu hadolygu fel rhan o'r CDLl newydd sydd i ddod.

- Strategaeth Twf CDLl a diffyg cyflenwad tai 5 mlynedd;
- Mynd i'r afael â'r angen a nodwyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; a
- Rheoli gwastraff a mwynau.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ar 4 Mehefin 2013. Mae'n rhoi arweiniad clir ar sut y gall datblygiad newydd fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y Sir a lle, pryd a sut y bydd datblygiad newydd yn digwydd hyd at 2021.

2.2 Mae monitro yn ddull hanfodol o adolygu llwyddiant gweithredu cynigion Cynllun unigol heb gael effaith niweidiol ar gymunedau lleol na'r amgylchedd. Mae hefyd yn awgrym o'r graddau mae'r Strategaeth CDLl a pholisïau lleol yn cael eu darparu a'u cyflawni. Hefyd, mae monitro yn cynorthwyo wrth ganfod heriau allweddol newydd a ffyrdd posibl ymlaen i addasu polisïau lleol i fynd i'r afael â nhw.

2.3 Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

2.4 Dyma'r trydydd AMB a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych, ac mae'n ychwanegu at ddau adroddiad a gyflwynwyd eisoes mewn perthynas â pherfformiad polisi lleol a chasglu tystiolaeth ar gyfer cynhyrchu CDLl newydd erbyn 2021. Gan gydfynd â chynhyrchu'r AMB, mae'r Cyngor yn y broses o ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu CDLl Drafft (gweler yr adran nesaf) gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r

cyhoedd. Mae cysylltiadau sylweddol rhwng y ddwy ddogfen oherwydd bod y ddau yn asesu perfformiad y CDLl. Felly, yn achlysurol mae'r AMB yn achlysurol yn cyfeirio at yr Adroddiad Adolygu CDLl a'i atodiadau ar gyfer gwybodaeth fanylach.

## 3. Adroddiad Adolygu CDLl Drafft (Awst 2017)

3.1 Mae Rheoliad 41 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol (Cymru) (Diwygiad) 2015' yn nodi bod rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddechrau adolygiad o'i gynllun bob pedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 ym mis Mehefin 2013 sy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor ddechrau adolygu'r Cynllun yn 2017.

3.2 Ar ôl adolygu'r CDLl, cafodd budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd gyfle i roi sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu CDLl Drafft rhwng canol Awst a chanol Hydref 2017; nod y Cyngor oedd cyflwyno dogfen derfynol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017. Gellir cael copïau (drafft/gorffenedig) gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol trwy anfon e-bost at cdll@sirddinbych.gov.uk neu ar wefan y Cyngor.

3.3 Daw'r Adroddiad Adolygu CDLl gyda nifer o Bapurau Gwybodaeth, gan gynnwys testunau fel Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd a Gwerthusiad Cynaladwyedd, sy'n ymdrin â themâu CDLl unigol a pholisïau lleol. Mae'r papurau hyn yn nodi yn fanwl unrhyw newidiadau i bolisïau cenedlaethol a pherfformiad polisi lleol ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Mehefin 2013. Cyfrannodd canfyddiadau allweddol yr AMB blaenorol (gweler yr adran nesaf) at y papurau hynny, gan argymell y dylai'r Cyngor gynnal adolygiad cynllun llawn yn amodol ar gytundeb LlC.

## 4. Canfyddiadau allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol

4.1 Mae'r Cyngor eisoes wedi cyflwyno dau AMB i Lywodraeth Cymru ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Mehefin 2013. Mae'r ddau wedi nodi tri prif faes pryder mewn perthynas â pherfformiad polisi lleol.

(1) Strategaeth Twf CDLl – methiant i ddarparu nifer o anheddau fel y nodwyd ym mhennod 5 y CDLl, wedi'i gysylltu â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 gofyniad 'cyflenwad tir tai 5 mlynedd'.
(2) Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – gweithio tuag at fynd i'r afael â'r angen fel y nodwyd yn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr'; a
(3) Rheoli Gwastraff a Mwynau – mae newidiadau deddfwriaethol a rheolaethol yn gofyn am ddiwygio polisïau lleol a dangosyddion monitro perthnasol.

4.2 Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y testunau hyn, gan gynnwys gwybodaeth gefndir a goblygiadau ar gyfer polisïau lleol yn yr

Adroddiad Adolygu CDLl Drafft a Phapurau Gwybodaeth – Creu Cymunedau Cynaliadwy, Hybu Economi Gynaliadwy.

4.3 Mae'r prif ddogfen CDLl, pennod 7, yn nodi'r fframwaith fonitro sy'n ffurfio elfen allweddol yr AMB hwn ac yn cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad polisïau lleol. Ar ôl cynhyrchu dau AMB daeth yn amlwg mai nid yn unig perfformiad polisi lleol a all newid – gall y fframwaith monitro ei hun fod yn destun newidiadau. Mae'n cynnwys, er enghraifft, targed polisi cenedlaethol 'Swm y datblygiadau preswyl sy'n diwallu'r Cod Tai Cynaliadwy Lefel 3 a chyflawni 6 credyd dan Ene 1 – Cyfradd Gollyngiadau mewn Anheddau' sydd heb ei drafod mewn polisi cynllunio ers cyhoeddi PPW Rhifyn 7 (Gorffennaf 2014).

## 5. Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

5.1 Yn deillio o ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, bydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDCC) yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ac yn cefnogi penderfyniadau ar ddatblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol. Tra bod Cynllun Gofodol Cymru yn ymdrin â'r egwyddor 'datblygiad cynaliadwy', mae'r FfDCC yn mynd ymhellach i weithredu darpariaethau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5.2 Mae proses baratoi FfDCC newydd ddechrau gyda galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth a phrosiectau posibl a all gyfrannu at strategaethau cenedlaethol ac y gellir eu hystyried i'w cynnwys fel prosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol, sylweddol. Cynigiodd y Cyngor dri phrosiect: (1) hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, (2) sawl prosiect dan ymbarél 'Adfywio'r Rhyl', a (3) Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan.

5.3 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Materion, Dewisiadau a Dewisiadau a Ffafrir ar gyfer FfDCC ym mis Ebrill 2018, ymgynghoriad ar ddogfen drafft ym mis Gorffennaf 2019, ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 a disgwylir i'r fframwaith cenedlaethol terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2020.

5.6 Er na fydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn cael effaith ar CDLl CSDd neu berfformiad polisïau lleol, mae'r ddau yn debygol o fanteisio o ganlyniad yr AMB a gall fod yn ddull o fynd i'r afael â materion cyfredol mewn datblygiad polisi lleol yn y dyfodol.

## 6. Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

6.1 Dim ond nifer fechan o ychwanegiadau a diwygiadau sydd wedi bod i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio. Mae Tabl 1 yn canolbwyntio ar y rhai a wnaed yn ystod y cyfnod Ebrill 2016 i Mawrth 2017. Er bod y

ddau ddeddf amgylcheddol wedi cael Cydnabyddiaeth Brenhinol ar ddiwedd y cyfnod monitro blaenorol, daeth deddfwriaeth eilradd, arweiniad a phenderfyniadau i rym ar ôl dechrau Ebrill 2017.

6.2 Tabl 1 Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

| Dogfen | Dyddiad |
|---|---|
| Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mawrth 2016 |
| Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | Mawrth 2016 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) | Tachwedd 2016 |
| Nodyn Cyngor Technegol 4: Adwerthu a Datblygiad Masnachol | Tachwedd 2016 |

*Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016*

6.3 Cyflwynodd Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 ddull cysylltiedig o reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy a rhagweithiol, a fydd yn helpu i fynd i’r afael â newid hinsawdd yn ogystal â mynd i’r afael â’r dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth. Mae’r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu Adroddiad Cyflwr Cyfoeth Naturiol, Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol (gan Lywodraeth Cymru) a Datganiadau Ardal (gan Gyfoeth Naturiol Cymru), a ddefnyddir i gynllunio a rheoli cyfoeth naturiol ar lefel genedlaethol a lleol. Mae’n rhaid i CDLl newydd y dyfodol ystyried unrhyw Ddatganiadau Ardal a gynhyrchwyd. Mae’r ddeddf hefyd yn cynnwys targedau statudol ar gyfer lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr.

*Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*

6.4 Mae Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gwneud newidiadau i ddau brif gyfraith y DU sy’n darparu’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli’r amgylchedd hanesyddol. Mae'r ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, yn gwella rheolaeth yr amgylchedd hanesyddol ac yn ceisio gwella tryloywder mewn perthynas â’r penderfyniadau a gymerir ar yr amgylchedd hanesyddol.

*Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9)*

6.5 Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016; i adlewyrchu darpariaethau Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Ailedrychwyd ar Bennod 6 mewn partneriaeth â Cadw. Mae Pennod 10 hefyd wedi’i adolygu i ddiweddaru amcanion Llywodraeth Cymru ar adwerthu a datblygiad masnachol, gan gyd-fynd â chyhoeddiad Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 4 a ailysgrifenwyd (gweler isod).

*Nodyn Cyngor Technegol 4: Adwerthu a Datblygiad Masnachol*

6.6 Mae’r ddogfen yn ategu Polisi Cynllunio Cymru wrth sefydlu amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer canolfannau adwerthu a masnachol. Mae’n darparu dehongliad polisi ac arweiniad ar brofion


anghenion adwerthu ac agwedd dilyniannol at ddatblygiad, gofynion manwl ar gyfer asesiadau effaith adwerthu a manteision cynnal ‘gwiriadau iechyd’ yn rheolaidd. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael eu hannog i gynhyrchu polisïau lleol ar adwerthu sy’n ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer newidiadau yn anghenion y cwsmeriaid, eu patrymau siopa a chaniatáu ar gyfer mathau cyflenwol o ddefnydd tir i gynnal hyfywdra prif strydoedd.

## 7. Strategaeth CDLl

7.1 Mae’r Strategaeth CDLl yn cynnwys dwy brif elfen: y Strategaeth Twf a’r Strategaeth Ofodol. Er bod y Strategaeth Twf wedi’i ategu gan sawl rhagolwg yn ymwneud, er enghraifft, â phoblogaeth, maint aelwydydd, a thwf economaidd, mae’r Strategaeth Ofodol yn mynd i’r afael â sut y gall twf gael ei gymhwyso mewn setliadau presennol neu newydd.

7.2 Mae prif ddogfen y CDLl, pennod 5, yn nodi manylion am y Strategaeth CDLl gyda gwybodaeth am raddfa datblygiad, strategaeth ofodol, a chyfnodau datblygu. Mae’r elfennau yn bennaf wedi’u hadlewyrchu ym mholisi lleol CCC 1 ‘Strategaeth Twf Sir Ddinbych' a dyraniadau tir fel y dangosir ar Fap Cynigion CDLl. Mae Siart 1 yn dangos y tai blynyddol a gwblhawyd mewn cymhariaeth â’r lefelau twf a ragwelir ers dechrau cyfnod y Cynllun yn 2006.

7.3 Siart 1 Tai blynyddol a gwblhawyd o’i gymharu â lefelau twf a ragwelir yn CDLl Sir Ddinbych ers 2006/07.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

7.4 Mae’r siart uchod yn dangos bod y nifer o dai a gwblhawyd wedi bod yn sylweddol is na’r nifer tai a ragamcanwyd ers 2011/2012. Gan nad oedd yn bosibl cyflawni’r ffigurau hynny mewn blynyddoedd

blaenorol, mae'n rhaid i'r CDLl nesaf ar gyfer y Sir fod yn fwy realistig yngl□n â'r hyn y gellir ei ddarparu mewn cyfyngiadau fel isadeiledd, hyfywdra, a chapasiti y sector adeiladu.

7.5 Mae Strategaeth Ofodol y CDLl yn cyfeirio'r mwyafrif o ddatblygiad preswyl newydd a datblygiad economaidd tuag at ogledd y Sir, gan ganolbwyntio yn bennaf ar goridor yr A55 a setliadau mwy ar hyd yr arfordir. Ond, bydd trefi marchnad a setliadau gwledig yn manteisio o dwf yn unol â'r capasiti presennol.

7.6 Tabl 2 Tai a gwblhawyd yn unol â strategaeth ofodol y CDLl ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006

| Lleoliad | Nifer aelwydydd | Canran |
|---|---|---|
| Gogledd y Sir | 1220 | 54 |
| Ardal Ganolog | 728 | 33 |
| De y Sir | 295 | 13 |
| *Cyfanswm* | 2243 | 100 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

7.7 Mae'r nifer tai a gwblhawyd yn bennaf wedi bod yn unol â'r strategaeth ofodol CDLl a fabwysiadwyd; gan arddangos y canran uchaf ar gyfer gogledd y Sir, ac yn sylweddol is yn y De.

7.8 Tabl 3 Tai a gwblhawyd yn unol â strategaeth setliad y CDLl ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006

| Strategaeth Twf y CDLl | Nifer aelwydydd | Canran |
|---|---|---|
| Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | 0 | 0 |
| Trefi Twf Is | 1648 | 73 |
| Pentrefi | 241 | 11 |
| Pentrefannau | 28 | 1 |
| Cefn Gwlad Agored | 326 | 15 |
| *Cyfanswm* | 2243 | 100 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

7.9 Mae Tabl 3 yn dangos bod darpariaeth anheddau newydd wedi bod yn unol â'r hierarchaeth setliadau a nodwyd yn y CDLl a fabwysiadwyd. Roedd y canran uchaf o dai newydd a gwblhawyd mewn Trefi Twf Is. Dyma'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd gan iddynt gynnig ystod o wasanaethau a chyfleusterau hygyrch.

7.10 Daw'n amlwg o'r siartiau a'r tablau uchod bod y Strategaeth CDLl yn bennaf yn dioddef oherwydd niferoedd isel y tai a gwblhawyd yn y Sir, ac nid eu lleoliad. Bydd yr elfen dwf yn amodol ar adolygiad wrth ddechrau gwaith ar y CDLl newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

## 8. Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyflenwad tir tai 5 mlynedd

8.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Tachwedd 2016), paragraff 9.2.3., yn pwysleisio'r angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos bod cyflenwad tir tai 5 mlynedd ar gael yn y Sir. Dengys Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych 2017 ffigwr cyflenwad o 1.79 mlynedd. Ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Mehefin 2013, mae'r ffigwr hwn wedi bod yn syrthio'n gyson (gweler tabl 4 isod).

8.2 Tabl 4 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai 5 mlynedd CSDd (2013 - 2017)

| Blwyddyn | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad Tir ar gyfer Tai 5 mlynedd (Dull gweddilliol TAN1) | 3.49 | 1.80 | 2.10 | 2.02 | 1.79 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

8.3 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 'Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir Tai', paragraffau 2.4 a 3.4, yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i ystyried adolygiad o'r Cynllun os nad yw'r ffigwr cyflenwad yn cael ei ddiwallu. Gan na allai'r Cyngor gyflwyno digon o dir ar gyfer datblygiad preswyl yn unol â'r gofyniad TAN 1 dros y pum mlynedd diwethaf (gweler tabl 4), y mater hwn yw'r prif reswm dros geisio adolygiad o'r CDLl.

## 9. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

9.1 Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o faterion llety Sipsiwn a Theithwyr yn hanfodol er mwyn cynllunio darpariaeth briodol ac osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â gwersylloedd ad hoc neu anawdurdodedig. Bydd asesiad a strategaeth llety i ddiwallu'r angen a nodir yn cryfhau gallu'r Awdurdodau Lleol i ymateb yn gyflym ac yn gadarn i ddatblygiadau a gwersylloedd anawdurdodedig ac amhriodol ac yn helpu i osgoi gwersylla a datblygiad anawdurdodedig yn y dyfodol.

9.2 Daeth yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle'r oedd yr asesiad yn nodi angen, yn ofyniad statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

9.3 Cymeradwywyd Adroddiad Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych 2016 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017, a daethpwyd i'r casgliad bod angen safle preswyl a safle dros dro neu fan aros yng Ngogledd y Sir a dan ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru), ac mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â'r angen hwn.

9.4 Ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar yr asesiad anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at yr anghenion a nodwyd trwy ddarpariaeth safle.

9.5 Mae monitro polisi lleol CCC 10 'Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' felly wedi ystyried y newidiadau cyfreithiol a chynhyrchu GTAA newydd sydd wedi nodi bod y lefel dangosydd a sbardun gwreiddiol a nodwyd yn CDLl Sir Ddinbych yn ormodol. Felly, mae'n rhaid nodi'r adolygiad polisi a mecanweithiau monitro perthnasol a'u gweithredu yn y CDLl newydd.

## 10. Tir cyflogaeth

10.1 Darparwyd dyraniadau tir cyflogaeth newydd yn bennaf yn Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan, Parc Busnes Llanelwy a Threfi Twf Is. Y nodau oedd darparu amryw o safleoedd mewn gwahanol leoliadau i helpu cwmnïau lleol gyda chynlluniau i ehangu a denu busnes newydd i Sir Ddinbych. Ar wahân i leiniau newydd o dir, mae polisïau lleol hefyd yn pwysleisio cadw eiddo cyflogaeth presennol.

10.2 Mae perfformiad polisi lleol PSE 2 yn cael ei fesur mewn perthynas â swm y tir newydd, h.y. tir glas. Mae tabl 5 yn dangos y defnydd o dir cyflogaeth ers 2008. Mae'r sbardun adolygiad polisi yn cael ei amodi os yw llai na 3 hectar y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol yn cael eu cyflawni.

10.3 Tabl 5 Defnydd tir cyflogaeth (hectar) yn y Sir ers 2008

| *Polisi CDLl* | *2008* | *2009* | *2010* | *2011* | *2012* | *2013* | *2014* | *2015* | *2016* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PSE 2 | 5.2 | 4.4 | 9.1 | 0.0 | 3.3 | 0.0 | 7.95 | 0.00 | 2.21 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)


10.4 Mae defnydd tir wedi bod yn araf yn y pum mlynedd diwethaf, ac eithrio yn 2014, oherwydd nifer y swyddfeydd ac unedau diwydiannol gwag sydd ar gael yn Sir Ddinbych. h.y. gall y stoc presennol fodloni'r galw gan fusnesau heb drosi'r galw yn ofynion tir newydd. Mae'r safleoedd hyn eisoes yn manteisio o isadeiledd cyfredol a gwasanaethau cludiant cyhoeddus.

## 11. Adwerthu

11.1 Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon blynyddol o ganol y prif drefi a dinasoedd, gan ganfod cyfraddau eiddo gwag a newidiadau mewn defnydd (gweler siart 2). Bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu i gael awgrym o iechyd y dref a lefel y defnydd adwerthu yn y dref.

11.2 Dim ond canol un dref sydd â chyfradd eiddo gwag yn uwch na 15% am 3 blynedd yn olynol (sbardun polisi lleol). Os bydd polisi lleol newydd neu ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r CDLl newydd, mae angen i ddangosyddion perfformiad a sbardunau gael eu halinio yn agosach i allu'r Cyngor i ddylanwadu ar y sector adwerthu lleol.

11.3 Siart 2 Cyfraddau Eiddo Gwag Canol Tref Sir Ddinbych (2006 - 2016)




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

## 12. Gwastraff a Mwynau

12.1 Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol swyddogaeth bwysig bosibl i'w chwarae wrth hwyluso symud tuag at economi cylchol, gyda Pholisi RD1 yn cynnwys cyfres o feini prawf a fyddai'n berthnasol i'r holl ddatblygiadau, gan gynnwys y gofyniad y byddai'r cynigion yn 'ystyried cynhyrchu, trin a thaflu gwastraff' (maen prawf (xiv)). Ni ystyrir bod y geiriad yn ddigonol i sicrhau bod ymgeiswyr yn ceisio cynllunio gwastraff a rheoli gwastraff sy'n ymddangos mewn modd cynaliadwy. Mae adolygiad o geisiadau cynllunio diweddar yn nodi bod y maen prawf hwn ond yn cael ei ystyried yn frysiog gan ymgeiswyr. Bydd angen adolygu polisi lleol RD1 i fynd i'r afael â'r mater hwn.

12.2 Mae polisi VOE 7 yn cynnwys dyraniadau ar sail y tir a nodwyd yn Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol sydd ddim yn berthnasol bellach a ddim yn darparu meini prawf digonol ar gyfer asesu rheoli gwastraff o fewn ffiniau datblygiad. Er na ddylid ailadrodd polisïau cenedlaethol, byddai o gymorth i ganfod meini prawf sy'n dangos sut yr ymdrinnir â materion fel angen, hierarchaeth gwastraff ac effaith amwynder. Mae Polisi VOE 8 yn cydnabod na ellir lleoli pob datblygiad gwastraff o fewn stadau diwydiannol presennol a wedi'u dyrannu. Ond, mae geiriad y polisi yn or rwystrol ac yn dibynnu ar y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol i ganfod angen, sydd ddim yn berthnasol bellach. Nododd Monitro Blynyddol bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws y rhanbarth mewn perthynas â darparu capasiti trin gwastraff bwyd a chapasiti trin gwastraff gweddilliol, felly er bod angen adolygu'r polisïau, mae

cynnydd sylweddol wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â diwallu targedau polisi.

12.3 Cynhyrchwyd y Cynllun Datblygu Lleol gan ddefnyddio'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2009) fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd r□an wedi'i ddiweddaru gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2014). Mae'r Adolygiad 1af RTS wedi nodi angen am 0.1 miliwn tunnell fetrig y flwyddyn o dywod a graean dros gyfnod y cynllun ac am 7 mlynedd yn ddiweddarach, ac angen am 0.89 miliwn tunnell fetrig y flwyddyn o graig wedi'i malu'n fân. Mae hyn yn trosi yn ofyniad i ddyrannu 2.2 miliwn tunnell fetrig o dywod a graean a 0.18 miliwn tunnell fetrig o graig wedi'i malu'n fân hyd at y flwyddyn 2036. Mae hyn o gymharu â'r gofyniad i ganfod 1 miliwn tunnell fetrig o dywod a graean fel sy'n ofynnol gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol 2009. Mae Pennod 14 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r agwedd i'w chymryd i nodi'n glir lle dylai echdyniad mwynau gael ei gynnal, neu lle mae fwyaf tebygol. Nododd Polisi PSE17: Echdynnu Mwynau i'r Dyfodol, 'Ardaloedd a Ffafrir' lle bydd ceisiadau ar gyfer echdynnu hyd at 1 miliwn tunnell fetrig o dywod a graean yn cael eu cefnogi. Mae'r monitro blynyddol yn cynnwys sbarduno 'Ni chaniateir echdynnu erbyn 2017'. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau hyd yma, ac ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio. Bydd angen mynd i'r afael â'r mater trwy adolygu'r CDLl, fel gyda'r carreg mân ychwanegol.

12.4 Mae monitro blynyddol yn awgrymu bod y polisi diogelu, Polisi PSE 15 a'r polisi parth clustogi, Polisi 16, yn effeithiol. Bydd yn bwysig adolygu'r mater hwn yn dilyn unrhyw newidiadau i bolisïau cenedlaethol i'r dyfodol. Hefyd, bydd angen ystyried goblygiadau dyraniadau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o'r Adolygiad CDLl yn erbyn y polisïau hyn.

## 13. Polisi Lleol – Crynodeb Monitro

13.1 Mae gwybodaeth a data ystadegol yn cael eu tynnu o ffynonellau lluosog: Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor ac arolwg maes a wnaed gan adrannau a gwasanaethau eraill yn y Cyngor. Mae'r asesiad o bob polisi lleol, gan gynnwys sylwadau byr, i'w gweld yn Atodiad 1.

13.2 Mae yna ddangosyddion polisi a lefelau sbarduno, er enghraifft, Amcan 8 CDLl, sy'n cynnwys yr ymadrodd 'ac eithrio lle mae'n cael ei gyfiawnhau yn unol â pholisi' neu eiriad tebyg. Cawsant eu cynnwys wrth gyfeirio at y gofyniad bod yn rhaid i Bolisi Cynllunio Cymru a CDLl gael eu cymhwyso yn eu cyfanrwydd yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Gall ystyriaethau perthnasol eraill o bryd i'w gilydd ddiystyru meini prawf polisi unigol heb fygwth effeithiolrwydd ac ymarferoldeb y Cynllun.

13.3 Er mwyn bod o gymorth ar gyfer monitro yn weledol, mae'r symbolau canlynol yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at berfformiad polisi lleol:

| | |
|---|---|
| √ | Polisi lleol yn perfformio yn foddhaol, h.y. targed polisi wedi ei gyrraedd, yn parhau neu'n rhagori ar ddisgwyliadau. |
| O | Nid yw'r targed Polisi wedi ei gyrraedd hyd yma ond mae'r Cyngor yn disgwyl cyrraedd y targed dros y 12 mis nesaf, neu mae'r cyfnod monitro yn rhy fyr i asesu perfformiad yn unol â dangosydd polisi a lefel sbardun diffiniedig. |
| X | Nid yw'r polisi lleol yn gweithredu yn ôl y disgwyl, h.y. nid yw'r targedau polisi yn cael eu bodloni. Mae'n rhaid i'r Cyngor nodi rhesymau dros fethiant a gwneud defnydd o fesurau priodol i wella perfformiad. |

13.4 Mae Tabl 6 yn amlygu polisïau lleol nad ydynt yn gweithredu yn ôl y disgwyl ar adeg mabwysiadu'r Cynllun ac, felly, mae'n rhaid eu hadolygu fel rhan o gynhyrchu'r CDLl newydd.

13.5 Tabl 6: Polisïau'r CDLl ddim yn perfformio yn ôl y disgwyl

| Polisïau'r CDLl | Sylwadau |
|---|---|
| Polisi CCC 1 – Strategaeth Twf ar gyfer Sir Ddinbych | Gweler adrannau 7 a 8 uchod i gael manylion; mae polisi CDLl yn amodol ar adolygiad fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); adran 4 a pharagraffau 5.5 i 5.8. |
| CCC 4 – Tai Fforddiadwy;<br>CCC 8 – Safleoedd Eithriad Gwledig;<br>CCC 9 - Cysylltiadau Lleol Tai Fforddiadwy o fewn Grwpiau Bach | Mae'r polisi CDLl yn amodol ar adolygiad fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); paragraffau 4.25 i 4.31 |
| CCC 10 - Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Gweler Adran 9 uchod am fwy o fanylion;<br>Mae'r polisi CDLl yn amodol ar adolygiad fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); paragraffau 5.9 i 5.15 |
| CCC 2 – Tir at Ddefnydd Cyflogaeth | Gweler adran 10 uchod am fwy o fanylion; |

| | |
|---|---|
| | Mae'r polisi CDLl yn amodol ar adolygiad fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); paragraffau 4.31 i 4.36 ac Atodiad II i'r brif ddogfen |
| CCC 6 – Economi Adwerthu; CCC 8 – Datblygiad mewn Canol Trefi; CCC 9 – Datblygiad Adwerthu y Tu Allan i Ganol y Dref | Gweler adran 12 uchod am fwy o fanylion;<br>Mae'r polisi CDLl CCC 6, CCC 7 a CCC 9 yn amodol ar adolygiad fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II i'r brif ddogfen |

## 14. Fframwaith Gwerthuso Cynaladwyedd – Crynodeb Monitro

14.1 Cafodd y Fframwaith GC ei ddatblygu gan ddefnyddio'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni, data gwaelodlin a materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres o Amcanion GC sy'n dargedau uchelgeisiol y dylai Sir Ddinbych ymdrechu i weithio tuag atynt drwy baratoi a gweithredu'r CDLl.

14.2 Mae'r Fframwaith GC yn cael ei ddefnyddio i brofi perfformiad cynaliadwyedd y CDLl ac mae'n amlygu ei gryfderau a'i wendidau. Mae monitro yn weithgaredd sylfaenol a fydd yn galluogi Cyngor Sir Ddinbych i asesu:

- gweithrediad amcanion a thargedau'r CDLl;
- perfformiad mesurau lliniaru;
- yr effeithiau cynaliadwyedd nad ydynt yn ddymunol; a
- pa un a oedd rhagfynegiad cynaliadwyedd yn gywir.

14.3 Mae perfformiad pob un o'r polisïau Cynllun Datblygu Lleol wedi'i asesu gan ddefnyddio'r Fframwaith GC ac adroddir arnynt yn yr Adroddiad GC (2011) ac Atodiadau. Bydd canlyniadau o'r ymarfer monitro Amcanion GC yn cael eu defnyddio i addasu polisïau lleol os bydd angen fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol.

14.4 Y Gwerthusiad Cynaliadwyedd – mae monitro fel rhan o'r AMB yn cael ei gynnal yn yr un modd â monitro polisi lleol. Defnyddiwyd symbolau i fod o gymorth gweladwy ar gyfer monitro a darperir sylwadau mewn cysylltiad â phob Nod GC. Mae'r asesiad o Amcanion GC unigol, gan gynnwys sylwebaeth, ar gael yn Atodiad 2.

14.5 Mae'r monitro GC yn edrych yn gyfannol ar dueddiadau amgylcheddol economaidd a chymdeithasol yn Sir Ddinbych. Nid yw rhai dangosyddioin GC yn cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan berfformiad polisi CDLl. Mae'n anodd rhoi sylwadau manwl ar gamau gweithredu a allai wella Amcan GC. Ar ben hynny, oherwydd

natur y dangosyddion unigol a lefelau sbardun, mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i lywio newid, ond bydd yn ystyried mesurau sy'n cyfrannu'n bositif tuag at gyrraedd Amcanion GC.

14.6 Bydd tueddiadau a nodwyd yn y fframwaith monitro GC yn ffurfio tystiolaeth hollbwysig wrth lunio materion allweddol newydd, diwygio Amcanion y CDLl a ffyrdd newydd o ddarparu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Mae lle hefyd i weithredu elfennau unigol yn nogfennau eraill y Cyngor, er enghraifft, y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd i ddod. Mae'r CDLl yn rhan o gyfres ehangach o ddogfennau'r Cyngor i wella bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr.



14.7 Mae rhai meysydd yn y tabl monitro GC yn cael eu marcio 'Data heb ei gasglu'. Mae hyn yn cyfeirio at y ffaith nad yw gwybodaeth ar gael, neu nad yw'n cael ei gofnodi mwyach. Yn flaenorol mae'n bosibl bod data wedi cael ei gasglu gan y sector gwirfoddol neu gyrff cyhoeddus sydd wedi rhoi'r gorau iddi oherwydd llai o adnoddau. Mae cwmpas i ddiwygio'r 'bwlch data' hwn trwy weithio gyda budd-ddeiliaid i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 15. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


15.1 Derbyniodd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 29.04.15, ac mae'n ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol Cymru i gyfrannu tuag at gyflawni'r saith o 'nodau lles' a nodir yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddiffiniwyd.

15.2 Datblygwyd offeryn Asesu Effaith Llesiant y Cyngor ar ôl adolygiad o'r holl brosesau asesu effaith lleol ac arferion gorau ehangach yn genedlaethol. Mae'n integreiddio'r gofynion i asesu effaith ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, yr amgylchedd, yr economi, iechyd, ac yn y blaen - i gyd yn unol â deddfwriaeth. Gwneir cyfeiriad arbennig at y Cynllun Datblygu Lleol, gan gwestiynu cywirdeb y cynnig yn y Cynllun.

15.3 Defnyddir yr Asesiad Llesiant i ategu nifer o gynlluniau tymor hir, gan gynnwys y CDLl newydd. Mae eisoes wedi'i ddefnyddio i ategu Cynlluniau Gwella Sector Cyhoeddus unigol (Cynlluniau Corfforaethol) a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ategu datblygiad blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer yr ardal. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan CDLl 1: Poblogaeth a Chymuned** | | | | | |
| BSC 1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych | Diwallu anghenion tai'r Sir | Nifer o dai newydd sy'n cael caniatâd cynllunio; Nifer y cartrefi newydd a gwblheir bob blwyddyn | Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 500 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 2 a llai na 750 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 3 |  | Cyfnodau o ddatblygiad tai dros oes y CDLl: mae cyfnod monitro 2016/17 yng Ngham 3 gyda gofyniad blynyddol o tua 730 o anheddau<br><br>Y nifer o anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio yn 2016/17 oedd 268, ac eithrio caniatâd amlinellol<br><br>Y nifer o dai a gwblhawyd yn 2016/17 oedd 181 ( gweler Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017)<br><br>Mae'r ddau ffigur yn llawer is na'r gofyniad o 730 am dai a nodwyd yn y CDLl.<br><br>Cyflenwad Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) o dir oedd ar gael ar gyfer tai oedd 1.79 blwyddyn ar gyfer cyfnod 2016/2017 (gweler Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai 2017).<br><br>*Mae polisi CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); adran 4 a pharagraffau 5.5 i 5.8.* |
| | Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai | --- | Llai na 5 mlynedd o gyflenwad tir tai |  | |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| BSC 2 – Blaenoriaeth datblygu tir llwyd | Cynyddu nifer y safleoedd tir llwyd sydd ar gael ar gyfer eu datblygu | Nifer caniatâd cynllunio datblygiad newydd ar safleoedd tir llwyd | Gostyngiad islaw 60% ar gyfer tai a chyflogaeth (ac eithrio SSA Bodelwyddan) | √ | Canran y datblygiadau a gafodd ganiatâd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (hy, safleoedd tir llwyd) oedd 81% yn 2016/17.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |
| BSC 4 – Tai Fforddiadwy;<br>BSC 8 – Safleoedd eithriadau gwledig;<br>BSC 9 - Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | Cynyddu nifer yr aneddiadau fforddiadwy newydd a adeiledir yn y Sir | Nifer aneddiadau fforddiadwy newydd a ganiateir bob blwyddyn;<br>Nifer aneddiadau fforddiadwy newydd a gwblheir bob blwyddyn | Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 165 o aneddiadau fforddiadwy a ganiateir bob blwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 2 a llai na 225 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 3 | X | Cyfnodau o dai fforddiadwy dros oes y CDLl: mae cyfnod monitro 2016/17 yn gyntaf yng Ngham 3 gyda gofyniad blynyddol o tua 225 o anheddau<br><br>Y nifer o dai fforddiadwy a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn 2016/17 oedd 71<br><br>Y nifer o dai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2016/17 oedd 55<br><br>Sylwer: Cyflwynodd CSDd gyfanswm o 67 o dai fforddiadwy drwy gydol y cyfnod monitro sydd yn cynnwys anheddau a gyflwynwyd drwy lwybrau eraill megis ailddefnyddio eiddo gwag.<br><br>Mae'r ddau ffigur yn llawer is na'r tua 225 annedd y gofynnwyd amdanynt yn y CDLl.<br><br>*Mae polisi CDLl yn destun adolygiad fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); paragraffau 4.25 i 4.31.* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| BSC 10 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr | --- | Lle adnabyddir angen am safle parhaol a/neu safle pontio ar gyfer Sir Ddinbych yn Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd-orllewin Cymru (LHMA). Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyffiniol i gychwyn chwilio am safle. Adnabyddir safle addas a rhoddir caniatâd cynllunio o fewn 18 mis o dderbyn LHMA Gogledd-orllewin Cymru, os bydd yn adnabod angen penodol |   | Cafodd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr CSDd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017 fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai Cymru 2014. Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio i ddarparu safleoedd er mwyn diwallu'r anghenion dynodedig.<br><br>*Mae'r polisi CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); paragraffau 5.9 i 5.15* |
| Amcanion CDLl 2 & 3: Economi a Swyddi | | | | | |
| PSE 2 – Tir i ddibenion cyflogaeth | Ar gyfartaledd, 4 hectar o dir cyflogaeth yn cael eu defnyddio bob blwyddyn | Faint o dir cyflogaeth newydd, mewn hectarau, sy'n cael caniatâd cynllunio | Llai na 3 hectar y flwyddyn am 3 blynedd olynol |   | Y tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth dros y 3 blynedd diwethaf oedd 7.95ha yn 2014, 0 hectar yn 2015, a 2.21 hectar yn 2016.<br><br>Mae yna hefyd 26ha o dir cyflogaeth ar gael yn Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan, sy'n destun cymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl.<br>*Mae'r polisi CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); paragraffau 4.31 i 4.36.* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 1 – Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru;<br>PSE 3 – Gwarchod tir ac adeiladau cyflogaeth | Gwarchod tir rhag defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth | Faint o dir cyflogaeth, mewn hectarau, a gollir i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth | Mwy na 5% yn cael ei golli mewn gwrthdrawiad â Pholisi PSE 3 o gymharu â faint o dir cyflogaeth sydd ar gael, ym mlwyddyn mabwysiadu'r CDLl | 0 | *Mae polisi PSE 1 CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II.*<br><br>Polisi Lleol PSE3: Collodd y Cyngor 2 hectar neu 0.58% o dir cyflogaeth mewn gwrthdrawiad â Pholisi PSE 3 drwy apêl cynllunio yn 2016/17.<br><br>*Mae'r polisi PSE 3 CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II i'r brif ddogfen.* |
| PSE 5 – Economi Gwledig | Helpu cynnal yr economi gwledig | Lefelau diweithdra | Cynnydd mewn lefelau diweithdra mewn ardaloedd gwledig 5% uwchlaw lefelau 2011 | √ | Bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gwneud cais am lwfans ceisio gwaith yn Sir Ddinbych o 3.5% yn 2013 i 1.2% ym mis Mehefin 2017 (Ffynhonnell: NOMIS)<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |

Amcan CDLl 4: Manwerthu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 6 – Economi Manwerthu;<br>PSE 9 – Datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol | Cyfeirio datblygiadau manwerthu newydd i ganol trefi presennol | Faint o le newydd mawr manwerthu, swyddfa a hamdden a ganiateir y tu allan i ganol trefi | Caniatáu 1 datblygiad mawr manwerthu, swyddfa a hamdden y tu allan i ganol trefi yn groes i bolisi'r CDLl | √ | Ni dderbyniodd unrhyw ddatblygiad manwerthu mawr y tu allan i unrhyw ganol dref ganiatâd yn groes i bolisi CDLl. Cafodd datblygiad manwerthu mawr, ee, Cei'r Marina, ei gymeradwyo yn unol â pholisi BSC 2.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 7 – Cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd | Bodloni'r angen mesurol am fanwerthu ac eithrio bwyd yn y Sir | Darparu arwynebedd llawr newydd manwerthu nad yw'n fwyd yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych | Dim prosiectau wedi eu cyflawni erbyn 2015 | √ | Mae'r holl dir a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer datblygiad manwerthu o dan PSE 7 wedi cael ei ddefnyddio yn 2016/17.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |
| PSE 8 – Datblygiad yng nghanol trefi | Cynnal cydbwysedd defnyddiau manwerthu ac eraill yng nghanol trefi | Nifer o siopau wedi eu colli oherwydd newid defnydd | Cynnydd 5% mewn defnydd ar wahân i fanwerthu mewn canol tref am 3 blynedd olynol | √ | Ni recordiwyd cynnydd o 5% mewn defnydd ar wahân i fanwerthu mewn unrhyw ganol dref yn Sir Ddinbych am 3 blynedd yn olynol rhwng Tachwedd 2013 a mis Tachwedd 2016.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |
| PSE 6 – Economi Manwerthu;<br>PSE 8 – Datblygiad yng nghanol trefi;<br>PSE 9 – Datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol | Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi | Nifer unedau manwerthu gwag yng nghanol trefi | Cyfradd unedau gwag o 15% neu fwy am 3 blynedd olynol | X | Mae cyfradd o fwy na 15% o unedau gwag wedi bod yng nghanol tref y Rhyl am 3 blynedd yn olynol – 2014: 17.2%; 2015: 19.3%; 2016: 20.6%<br><br>*Mae polisi PSE 6, PSE 7 a PSE 9 CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II i'r brif ddogfen.* |
| PSE 10 - Siopau a gwasanaethau lleol | Gwarchod siopau a gwasanaethau lleol | Nifer siopau neu wasanaethau lleol a gollir oherwydd newid defnydd | Colli unrhyw siop neu wasanaeth lleol yn groes i'r polisi | √ | Ni roddodd y ACLl ganiatâd ar gyfer cynigion a fyddai'n golygu colli siop neu wasanaeth yn groes i bolisi CDLl yn 2015/16.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcanion CDLl 5 & 6: Trafnidiaeth | | | | | |
| ASA 1 – Seilwaith trafnidiaeth newydd | Darparu ar gyfer mynediad diogel i bob defnyddiwr, gan gynnwys beicwyr, cerddwyr i wasanaethau cyhoeddus, manwerthu a chyfleusterau cymunedol | Nifer datblygiadau sy'n ymgorffori argymhellion a wnaed mewn asesiad trafnidiaeth ac archwiliadau defnyddwyr di-fodur | Un datblygiad yn methu ymgorffori'r argymhellion mewn asesiad trafnidiaeth ac archwiliadau defnyddwyr di-fodur | √ | Ni fu'n rhaid i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau gorfodi ynghylch peidio â chydymffurfio ag amodau priffyrdd. Fe ymgynghorwyd â'r adran Priffyrdd ar 303 o geisiadau cynllunio.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |
| ASA 2 – Darparu cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy | Defnyddio amodau cynllunio / cytundebau A106 i sicrhau gwella neu wneud cyfraniad i wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio sy'n debygol o gael eu hachosi gan ddatblygiadau newydd | Nifer datblygiadau newydd yn gwella neu'n gwneud cyfraniadau tuag at wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio trwy gyfrwng amodau cynllunio / cytundebau A106 | Dim datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniadau tuag at wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio trwy gyfrwng amodau cynllunio / cytundebau A106 ar ôl pedair blynedd | √ | Ni ofynnodd y Cyngor am unrhyw les cynllunio tuag at gyfleusterau cludiant cynaliadwy yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag, llwyddodd y Cyngor i gael cyfraniadau gwerth £25,000 er mwyn gwella cysylltiadau i feicwyr a cherddwyr yn y Rhyl yn ystod cyfnod monitro 2014/2016.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |
| ASA 3 – Safonau parcio | Defnyddio safonau parcio uchaf mewn cynigion datblygu newydd yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol | Nifer datblygiadau newydd sy'n gwneud yn well na'r safonau parcio uchaf a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol | Un datblygiad newydd yn methu â chydymffurfio â'r safonau parcio uchaf | √ | Roedd cynigion cynllunio oedd newydd eu cymeradwyo yn cydymffurfio â safonau parcio fel y nodir yn y nodyn Canllaw Cynllunio Atodol. Nid oedd unrhyw achos o dorri'r amodau cynllunio perthnasol.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| BSC 5 – Safle Strategol Allweddol - Bodelwyddan | Darparu seilwaith ffyrdd newydd/gwella'r rhwydwaith ffyrdd presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan – Ffordd Sarn | Hyd seilwaith ffyrdd newydd/gwaith gwella i'r rhwydwaith presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan (Ffordd Sarn) | Dim seilwaith ffyrdd newydd/dim gwaith gwella i'r rhwydwaith presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan (Ffordd Sarn) cyn meddiannaeth yr annedd cyntaf ar yr SSA. | Heb ei fonitro eto | Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol gan gynnwys Cytundeb Adran 106 i Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ym mis Mawrth 2016. Rhaid cymeradwyo'r amodau er mwyn cychwyn gweithredu cymeradwyaeth cynllunio.<br><br>*Mae perfformiad polisi lleol yn gysylltiedig ag egwyddor cyffredinol polisi CDL BSC 5.* |
| | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus / mwy o gysylltiadau gwasanaeth bws rhwng Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol mewn trafodaeth â darparwyr gwasanaeth | Amlder gwasanaethau bws yn cysylltu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol fesul awr | Dim cynnydd yn amlder gwasanaethau bws yn cysylltu SSA Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol yn unol â'r amserlen a gytunwyd gan ddatblygwyr a gweithredwyr | Heb ei fonitro eto | |
| | Darparu llwybrau beicio a cherdded / cyfleusterau newydd fel rhan o SSA Bodelwyddan i roddi cysylltiad rhwng ardaloedd preswyl a chyflogaeth / cyfleusterau cymunedol | Nifer / hyd llwybrau beicio a cherdded newydd / cyfleusterau fel rhan o Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | Dim llwybrau beicio a cherdded/cyfleusterau newydd cyn meddiannaeth yr annedd cyntaf ar y SSA | Heb ei fonitro eto | |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcan CDLl 7: Yr Iaith Gymraeg | | | | | |
| RD 5 - Yr iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Dim niwed arwyddocaol i'r cymeriad Cymreig neu gydbwysedd ieithyddol y gymuned | Canlyniadau Datganiadau Ieithyddol Cymunedol neu Asesiadau a gyflwynwyd | Unrhyw ddatblygiad a ganiateir lle mae Datganiad Ieithyddol Cymunedol neu Asesiad yn dod i'r casgliad y byddai'r cymeriad Cymreig neu'r iaith yn cael eu niweidio lle nad yw niwed o'r fath yn cael ei drechu gan ystyriaethau eraill | √ | Ni chaniataodd y Cyngor unrhyw ddatblygiad pan oedd y dogfennau ategol yn nodi niwed i'r Gymraeg neu i ddiwylliant Cymraeg.<br><br>Cafwyd cyfanswm o 3 enw stryd newydd yn Gymraeg. Mae'n groes i bolisi'r Cyngor i roi enw Saesneg yn unig i unrhyw strydoedd newydd.<br>Cafodd CCA 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2014.<br><br>*Mae polisi RD 5 CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II i'r brif ddogfen.* |
| | Cynnydd mewn arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ac enwau lleoedd Cymraeg | Defnyddio arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog a defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar ddatblygiadau newydd | Unrhyw ddatblygiad lle mae strydoedd neu fannau newydd yn cael eu creu heb gynnwys enwau Cymraeg neu arwyddion dwyieithog | √ | |
| | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg | Paratoi a mabwysiadu CCA | Mabwysiadu CCA o fewn 12 mis i fabwysiadu'r CDLl | √ | |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan CDLl 8: Mannau Agored Cyhoeddus** | | | | | |
| BSC 11 – Adloniant a Mannau Agored | Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniad digonol i ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus | Nifer o unedau a ganiateir lle caiff gofynion mannau agored eu bodloni | 1 caniatâd cynllunio wedi ei roi lle nad yw gofynion mannau agored wedi eu bodloni, ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi | √ | Cafwyd 12 cais cynllunio a oedd yn caniatáu datblygu a ganiateir ar dir a ddynodwyd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o dan bolisi BSC11. Cafodd y ceisiadau hyn eu cyfiawnhau yn unol â'r polisi, ac roeddynt yn cynnwys gwaith gwella i gyfleusterau a mannau parcio.<br><br>*Nid oes angen adolygu'r polisi lleol.* |
| | Gwarchod mannau agored a ddyrannwyd rhag datblygu | Faint o fannau agored a ddyrannwyd a gollwyd i ddatblygiad | 1 caniatâd cynllunio wedi ei roddi i ddatblygu ar fan agored, ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi | √ | |
| **Amcan CDLl 9: Mwynau** | | | | | |
| PSE 15 – Diogelu Mwynau | Gwarchod adnoddau mwynau ansawdd uchel, gan gynnwys carreg galch, tywod a graean, Carreg Grut Dinbych, adneuon igneaidd a folcanig rhag datblygiad a fyddai'n arwain at golled barhaol neu'n llesteirio echdynnu | Ardal o fwynau a gollwyd i ddatblygiad | Colli mwynau a adnabuwyd ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi | √ | Dim.<br><br>*Mae'r polisi PSE 15 CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II – Papur Gwybodaeth PSE* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 16 – Parthau clustogi mwynau | Cynnal clustog rhwng datblygiad sensitif a chwareli | Nifer caniatâd cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad sensitif mewn parthau clustogi | Un caniatâd cynllunio neu fwy a ganiateir ar gyfer datblygiad sensitif mewn parth clustogi | √ | Ni roddwyd caniatâd cynllunio o fewn parthau clustogi mwynau yn ystod y cyfnod monitro. |
| PSE 17 - Echdynnu mwynau yn y dyfodol | Cyfrannu tuag at y galw rhanbarthol am agregau | Tunelli o echdynnu tywod a graean a ganiateir. Cynnal banc tir 10 mlynedd o graig galed | Dim echdynnu wedi ei ganiatáu erbyn 2017. Banc tir yn syrthio islaw 10 mlynedd | 0 | Ni dderbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu tywod a graean hyd yn hyn. Roedd cronfeydd rhanbarthol yn fwy na 15 miliwn tunnell o dywod a graean yn parhau ar ddiwedd 2015, roedd hyn gyfystyr â 18 mlynedd banc tir gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant 3 blynedd a 21 mlynedd gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd.<br><br>Y banc tir ar gyfer craig galed yn Sir Ddinbych oedd 54 mlynedd yn seiliedig ar gyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd, a'r banc tir rhanbarthol oedd 39 mlynedd.<br><br>*Mae polisi PSE 17 CDLl yn destun adolygiad fel y nodir yn Adroddiad Adolygu CDLl Drafft CSDd (Awst 2017); Atodiad II – Papur Gwybodaeth PSE* |

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan CDLl 10: Gwastraff** | | | | | |
